

# Infuse

## Gwasanaethau Arloesol y Dyfodol

### Canllawiau Ffurflen Gofrestru Carfan 1 Infuse

Dyddiadau'r rhaglen: 18 Hydref 2021 - 11 Ebrill 2022

Cofrestru ar agor 23 Awst 2021 - 16 Medi 2021

Diolch am eich diddordeb yn y rhaglen Infuse.

Mae'r ddogfen hon yn nodi gwybodaeth ac arweiniad pwysig i gefnogi eich cofrestriad ar y rhaglen. Mae'r ffurflen gofrestru ar gael yma:

<https://airtable.com/shrFG9Ja0rZhR3AKP>

### Ynglŷn ag Infuse

Mae Infuse yn rhaglen arloesi ac ymchwil sydd wedi'i chynllunio i feithrin sgiliau a chapasiti ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus arloesol yn y dyfodol ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Cefnogir Infuse gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru ac mae'n gydweithrediad rhwng Prifysgol Caerdydd, Nesta, Y Lab, Swyddfa Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC) a'r deg awdurdod lleol sy'n rhan o'r rhanbarth, gan gynnwys Cyngor Sir Fynwy fel y partner arweiniol. Bydd y rhaglen yn seiliedig ar gyfleoedd i fynd i'r afael â chwestiynau bywyd go iawn, wedi'u llywio gan yr heriau mwyaf a wynebir gan y rhanbarth.

Mae Infuse yn gweithio gyda swyddogion awdurdodau lleol o bob rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd i arbrofi gyda ffyrdd arloesol o fynd i'r afael â heriau sy'n ymwneud â dwy thema: cyflymu datgarboneiddio a chymunedau cefnogol.

Bydd partneriaid a chyfranogwyr yn nodi amrywiaeth o heriau neu broblemau sy'n cael eu rhannu ar draws y rhanbarth. Gallai'r rhain gynnwys datgarboneiddio, teithio llesol, tai neu ofal cymdeithasol. Gan ddefnyddio'r heriau hyn a rennir, byddwn yn dwyn ynghyd dimau traws-ranbarthol ym mhob un o'r tri maes sgiliau i weithio tuag at ddatrys rhan o'r her hon, gan ddefnyddio offer a dulliau newydd.

Bydd timau'n derbyn tua chwe mis o hyfforddiant a chymorth mewn sgiliau, offer a dulliau newydd i newid dyfodol darparu gwasanaethau cyhoeddus am flynyddoedd i ddod; datblygu sgiliau a chapasiti arloesi newydd drwy fynd i'r afael â heriau rhanbarthol mewn gwasanaethau cyhoeddus. Bydd y rhaglen yn rhedeg tan 2023, gan weithio gyda thair carfan o weithwyr awdurdodau lleol a'r sector cyhoeddus o bob rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Ymunwch â ni 2 ddiwrnod yr wythnos am ychydig dros chwe mis i archwilio atebion ymarferol i'r ddau gwestiwn thematig isod.

# Infuse

## Gwasanaethau Arloesol y Dyfodol

### Ffenestr gofrestru

Mae'r amserlenni canlynol yn berthnasol i alwad Infuse Carfan 1:

Dyddiad	Cam
23ain Awst 2021	Ffenestr gofrestru ar agor  Mae cymorth ar gael gan dîm y rhaglen yn ystod y cam hwn i ymateb i gwestiynau neu ymholiadau ar gyfer cymryd rhan
16eg Medi 2021	Ffenestr gofrestru yn cau  Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflen gais - 9am ar 16eg Medi 2021
20fed Medi 2021	Cadarnhad o gyfranogiad i gofrestryddion llwyddiannus

### Canllawiau ar gwblhau'r cais

#### Cymhwysedd

Rydym yn chwilio am 50 o gyfranogwyr o'r 10 awdurdod lleol yn ardal Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sy'n frwdfrydig ac wedi ymrwymo i gwblhau taith y rhaglen Infuse. Mae staff o'r cynghorau canlynol yn gymwys i gofrestru:

*Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Sir Fynwy, Blaenau Gwent, Torfaen, Casnewydd a Chaerdydd.*

Rydym am adeiladu carfan o reolwyr, arweinwyr, ac arweinwyr y dyfodol sy'n gallu datrys problemau. Nod Infuse yw meithrin arbenigedd arloesi yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru a chefnogi modelau newydd o ddarparu gwasanaethau. Dylai ymgeiswyr fod ag angerdd dros arbrofi, cymysgedd da o rai o'r sgiliau a'r agweddau canlynol, a pharodrwydd i ddatblygu'r gweddill.

#### Sgiliau ac agweddau dymunol:

- Gweithio gyda'n gilydd: Deall gwerth gwaith tîm, a'r gallu i weithio'n dda gydag eraill i gyflawni
- Newid arweiniol: Yn gallu gwneud i newid ddigwydd, newid mawr neu newid bach
- Cyflymu dysgu: Eisiau dysgu ac â hunan-gymhelliant ac yn ymroddedig
- Ymrwymiad a hunan-gymhelliant
- Meddwl agored ac yn barod i roi cynnig ar bethau newydd
- Cefnogi eraill
- Yn awyddus i ddatblygu i'w llawn botensial

# Infuse

## Gwasanaethau Arloesol y Dyfodol

- h. Brwdfrydig am adeiladu perthnasoedd newydd ac
- i. Yn gallu neilltuo hyd at 2 ddiwrnod yr wythnos i'r rhaglen

### Themâu Infuse

Fel rhan o'ch cofrestriad gofynnir i chi pa thema yr hoffech ganolbwyntio arni;

1. Cyflymu Datgarboneiddio: neu
2. Cymunedau Cefnogol

Efallai y bydd gennych ddewis cryf ar hyn o bryd ar gyfer un thema dros y llall. Gofynnir y cwestiwn hwn at ddibenion gwybodaeth, nid yw'n effeithio ar eich cais i ymuno â'r rhaglen.

### Beth fydd yn digwydd nesaf?

Ar ôl cau'r ffenestr gofrestru, bydd y set lawn o ffurflenni cofrestru yn cael eu hadolygu. Byddwn yn hysbysu cyfranogwyr a fu'n llwyddiannus wrth gofrestru am le ar y rhaglen ar 20 Medi 2021

### Rhaglen ddysgu Carfan 1 Infuse yn dechrau ar 19 Hydref 2021

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech drafod unrhyw un o'r uchod, cysylltwch â [Carys.lloyd@nesta.org.uk](mailto:Carys.lloyd@nesta.org.uk)

### Diolch yn fawr

Cefnogir Infuse gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru ac mae'n gydweithrediad rhwng Prifysgol Caerdydd, Nesta, Y Lab, Swyddfa Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC) a'r deg awdurdod lleol sy'n rhan o'r rhanbarth. Bydd y rhaglen yn seiliedig ar gyfleoedd i fynd i'r afael â chwestiynau bywyd go iawn, wedi'u llywio gan yr heriau mwyaf a wynebir gan y rhanbarth.

# Infuse

## Gwasanaethau Arloesol y Dyfodol



**YLab**

